# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Mercher, 28 Ebrill 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.S. Phillips ac J.E. Williams*

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**
Y Cynghorwyr W.T. Evans ac E.G. Thomas*
[*Oherwydd anawsterau technegol a gafwyd gan y Cynghorydd J.E. Williams yn ddiweddarach yn y cyfarfod, dirprwyodd y Cynghorydd E.G. Thomas, a oedd yn bresennol drwy gydol y cyfarfod fel 'dirprwy' posibl, ar ran y Cynghorydd Williams]

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**
D. Bizby, Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;
Cwnstabl B. Ashton, Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
J. Corner, Swyddog Technegol;
S. Rees, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.30 yb - 12.30 yp**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - KUBUS, 29 HEOL YR ORSAF, LLANELLI SA15 1AW**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Aram Mahmood am drwydded safle ar gyfer Kubus, 29 Heol yr Orsaf, Llanelli i ganiatáu'r canlynol:

Cyflenwi Alcohol, oddi ar y safle - Dydd Llun i ddydd Sul 09:00-21:00;
Oriau Agor - Dydd Llun i ddydd Sul 09:00-21:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais;
- Atodiad B - Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad C – Sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
- Atodiad D - Sylwadau gan bobl eraill.

Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi gwneud sylwadau mewn perthynas â'r cais. Cyfeiriwyd at y dogfennau ychwanegol a ddosbarthwyd ar ran cynrychiolydd

yr ymgeisydd a'r heddlu ac nid oedd unrhyw wrthwynebiadau iddynt. Ar hynny, cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan y rhai oedd a wnelont â'r mater.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad B. Tynnwyd sylw, yn benodol, at y Polisi Effaith Gronnol yn ymwneud â rhan o Heol yr Orsaf, Llanelli, a fabwysiadwyd gyntaf gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2012 a'r ffaith bod y safle hefyd mewn ardal sy'n destun Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys at eu sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad C i'r adroddiad, a oedd yn cynnwys amodau posibl, a'r dogfennau ychwanegol a ddosbarthwyd. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y sylwadau a wnaed.

Yna rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd yr Ymgeisydd gyflwyno sylwadau ar ran yr ymgeisydd, a oedd yn bresennol, ac, yn benodol, cyfeiriodd at ail-greu trefn weithredu'r siop i leihau'r risgiau o ran troseddau a niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr ymgeisydd ynghylch ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid gwrthod y cais.**
**Y RHESYMAU:**
Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Mae 29 Heol yr Orsaf, Llanelli mewn ardal oedd wedi ei chlustnodi yn Natganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor yn fan problemus o ran troseddau ac anhrefn ac mae'n destun Asesiad Effaith Gronnol (a adnewyddwyd yn 2021).
2. Mae 21 o safleoedd trwyddedig yn yr un stryd sy'n ffurfio ardal yr asesiad effaith gronnol (sydd wedi gostwng o 24 yn 2012).
3. Mae'r eiddo hefyd mewn ardal sy'n cael ei chynnwys mewn Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sy'n ymwneud ag yfed ar y stryd. (Adnewyddwyd yn 2020)
4. Mae lefelau troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn parhau i fod yn uchel yn Heol yr Orsaf er bod ychydig llai o safleoedd trwyddedig.
5. Mae problem benodol yn ymwneud â grwpiau mawr o bobl feddw sy'n ymgynnull ar y stryd, yn gweiddi, ac yn rhegi ac yn dychryn trigolion lleol.
6. Mae tystiolaeth bod y troseddau a'r anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol sydd dan sylw yn gysylltiedig â chrynodiad safleoedd trwyddedig yn y stryd honno.
7. Nid oes trwydded safle mewn grym ar y safle ar hyn o bryd. Gwrthodwyd ceisiadau blaenorol yn 2013 a 2019 (cadarnhawyd y penderfyniad diwethaf yn dilyn apêl)

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Nododd yr Is-bwyllgor fod datganiad polisi trwyddedu y Cyngor yn creu rhagdybiaeth amodol na ddylid caniatáu'r cais hwn ac yn nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid diystyru'r polisi. Nododd yr Is-bwyllgor ymhellach fod y polisi hefyd yn nodi bod honiadau y byddai safle trwyddedig yn cael ei reoli'n dda yn annhebygol o gyfiawnhau gwyro oddi wrth y polisi.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd felly oedd dangos pam na fyddai caniatáu trwydded ar gyfer y safle hwn yn tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn.

Y cwestiwn allweddol oedd a fyddai ychwanegu safle trwyddedig arall at y crynodiad presennol yn Heol yr Orsaf yn tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn. Y rhagdybiaeth yn y polisi trwyddedu oedd y byddai'n tanseilio'r amcan hwnnw. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ger ei fron, roedd yr ymgeisydd wedi methu â dangos mewn modd a oedd yn bodloni'r Is-bwyllgor fod amgylchiadau eithriadol i'w cael i ddiystyru'r rhagdybiaeth honno a gwyro oddi wrth y polisi.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried a fyddai'r amodau trwyddedu ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd yn hyrwyddo'n ddigonol yr amcan trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd am droseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Heol yr Orsaf a'r strydoedd cyfagos, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai amodau o'r fath yn ddigonol i hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwnnw, pe bai trwydded yn cael ei rhoi.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai caniatáu'r cais yn debygol o danseilio'r amcan trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn ac felly gwrthododd y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod gwrthod y cais yn ymateb priodol a chymesur i broblemau troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Heol yr Orsaf a'r strydoedd cyfagos.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**